Abergavenny
EISTEDDFOD
Y Fenni

GWEFAN NEWYDD I EISTEDDFOD Y FENNI

Lansiwyd gwefan newydd i Eisteddfod Y Fenni eleni, i ddathlu ei phumed pen blwydd ers ei hatgyfodiad yn y ganrif hon. Ar un adeg, roedd Eisteddfodau'r Fenni, dan nawdd Arglwyddes Llanofer, yn enwog ledled Cymru, gan ddenu ymwelwyr a chystadleuwyr o blith rhai o ysgolorion pennaf Ewrop.

Tybed beth fyddai ymateb Arglwyddes Llanofer pe dywedech wrthi y cai wybodaeth am yr Eisteddfod bellach drwy edrych ar www.eisteddfodyfenni.co.uk?

Heddiw cynhelir yr Eisteddfod flynyddol ganol mis Mehefin, gyda chystadlaethau ar gyfer y plant a'r bobl ifainc yn yr ysgol uwchradd leol. Gyda'r nos daw tro'r oedolion, gyda chyngerdd mawreddog yn Theatr y Bwrdeisdref sy'n cynnwys rhai o sêr y dyfodol, yn ogystal â pherfformiwyr profiadol o bob rhan o Gymru.

Ariannwyd gwefan newydd Eisteddfod Y Fenni gan Gweithredu Cymunedol Gwledig, corff sy'n gweithio ar y cyd gyda Chyngor Sir Fynwy, Awdurdod Datblygu Cymru a Chymdeithas Cyrff Gwirfoddol Gwent i helpu prosiectau yn Sir Fynwy.

Mwy o wybodaeth: Ceri Thomas, ceri-thomas@lineone.net 01873 850379
28.1.06